# Cael gwybod rhagor

# Find out more

Y Comisiwn Brenhinol yw corff ymchwilio ac archif cenedlaethol amgylchedd hanesyddol Cymru. Ef sydd â'r rôl arweiniol o ran sicrhau y caiff treftadaeth archaeolegol, adeiledig ac arforol Cymru ei chofnodi'n awdurdodol, a bydd yn ceisio hyrwyddo deall a gwerthfawrogi'r dreftadaeth honno'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'r cofnodion sydd gan y Comisiwn Brenhinol yn adnodd cenedlaethol a all ein helpu ni i ddeall rhagor am ein treftadaeth, ac am ei pherthnasedd i fywyd heddiw. Dydy'r lluniau yn yr arddangosfa hon ond yn gyfran fach iawn iawn o archif y Comisiwn. Gallwch chi ymgynghori â'r casgliad llawn o ffotograffau, lluniadau, lluniau, mapiau a thestunau yn swyddfeydd y Comisiwn yn Aberystwyth ac ar-lein drwy gronfa ddata Coflein yn www.coflein.gov.uk.

Gwefan sy'n adrodd hanes Cymru a'i phobl yw Casgliad y Werin Cymru. Mae'n brofiad ar-lein dynamig a dwyieithog sy'n gyforiog o luniau, recordiadau sain, dogfennau, fideos a straeon eithriadol o ddiddorol am hanes a threftadaeth Cymru a'i phobl. Gan fod Casgliad y Werin Cymru'n lle i ddarganfod, dysgu, cyfrannu a rhannu'ch stori am Gymru gyda'r byd, mae'n ffordd arloesol o gasglu, dehongli a thrafod treftadaeth ddiwylliannol Cymru ar-lein – ac mae'n rhad ac am ddim! Ewch i www.casgliadywerincymru.co.uk i ddechrau rhannu'ch straeon!

The Royal Commission is the investigation body and national archive for the historic environment of Wales. It has the lead role in ensuring that Wales' archaeological, built and maritime heritage is authoritatively recorded, and seeks to promote the understanding and appreciation of this heritage nationally and internationally.

The records held by the Royal Commission are a national resource that can help us understand more about our heritage, and its relevance to modern life. The images featured in this exhibition represent a mere fraction of the Commission's archive. The full collection of photographs, drawings, illustrations, maps and texts can be consulted at the Commission's offices in Aberystwyth, and online through the Coflein database at www.coflein.gov.uk.

People's Collection Wales is a website dedicated to the story of Wales and its people. It is a dynamic and bilingual online experience full of fascinating photographs, sound recordings, documents, videos and stories about the history and heritage of Wales and its people. A place to discover, learn, contribute and share your story of Wales with the world, People's Collection Wales represents an innovative approach to collecting, interpreting and discussing Wales's cultural heritage in an online environment – and it is free to use! Go to www.peoplescollectionwales.co.uk to start sharing your stories!


*DI2012_0166*


*DI2012_0131*


*DS2010_314_007*


Cysylltwch â Ni
**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
Plas Crug, Aberystwyth, SY23 1NJ

*Ffôn:* 01970 621 200
*E-bost:* chc.cymru@cbhc.gov.uk


**Cyfeillion y Comisiwn Brenhinol**

Cewch chi ymuno â Rhwydwaith Cyfeillion y Comisiwn Brenhinol yn rhad ac am ddim, ac mae'n fodd i'r aelodau gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith yn ogystal â chael disgownt ar ein cyhoeddiadau a dod i sgyrsiau ac arddangosiadau blynyddol.
I gofrestru, llenwch y ffurflen ymaelodi neu e-bostiwch cyfeillion@cbhc.gov.uk


Contact Us
**Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales**
Plas Crug, Aberystwyth, SY23 1NJ

*Tel:* 01970 621 200
*E-mail:* nmr.wales@rcahmw.gov.uk


**Friends of the Royal Commission**

The Royal Commission's Friends Network is free to join, and allows members to keep up to date with our work, while enjoying a discount on our publications, and annual talks and demonstrations.
To register, simply complete a membership form or e-mail friends@rcahmw.gov.uk